**EITEM AR YR AGENDA: 7**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**17eg Medi 2012**

**Y CYNLLUN GWELLA**

**Adroddiad Shân Morris, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol**

## Diben yr Adroddiad

1 Cwblhau'n derfynol argymhellion y Panel i'r Awdurdod Tân ac Achub ar ôl ystyried cynigion Gweithgor y Cynllun Gwella o ran Amcanion Gwella yr Awdurdod ar gyfer y dyfodol.

## Cyflwyniad

2 Mae Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gwella Cymreig wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus a gosod Amcanion Gwella bob blwyddyn, ar ôl ymgynghori'n gyntaf ar yr amcanion hynny gyda chynrychiolwyr partïon sydd â diddordeb.

3 Yn ei gyfarfod ar 16eg Gorffennaf 2012, cytunodd y Panel Gweithredol ar aelodaeth Gweithgor y Cynllun Gwella (CG) a chymeradwyo amserlen ar gyfer llunio a chyhoeddi Cynllun Gwella yr Awdurdod ar gyfer 2013-14 er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol. Nodir manylion yr amserlen hon eto er gwybodaeth yn Atodiad 1.

## Gwybodaeth

4 Ers cyfarfod diwethaf y Panel Gweithredol, mae Gweithgor y CG wedi cwrdd bedair gwaith i ystyried gwybodaeth a thrafod datblygiad Amcanion Gwella yr Awdurdod ar gyfer 2013-14. Mae hefyd wedi ystyried sut y gellid symud ymlaen â'r gwaith i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Amcanion Gwella yn y dyfodol.

5 Yn ei gyfarfod ar fore'r 17eg Medi 2012, gofynnir i Weithgor y CG benderfynu pa argymhellion y bydd yn eu gwneud i'r Panel Gweithredol o ran yr Amcanion Gwella ar gyfer 2013-14 ac unrhyw waith paratoi arall i fwydo i mewn i Amcanion Gwella yn y dyfodol.

**Argymhellion**

6 Gofynnir i'r Aelodau:

i) nodi'r adroddiad llafar a ddarperir yng nghyfarfod y Panel Gweithredol gan Weithgor y CG ar ei argymhellion o ran Amcanion Gwella yr Awdurdod;

ii) cadarnhau'r cynigion i'w hargymhell i'r Awdurdod Tân ac Achub llawn yn ei gyfarfod ar 15fed Hydref 2012 mewn perthynas ag:

a) Amcanion Gwella yr Awdurdod ar gyfer 2013-14; ac

b) unrhyw waith paratoi i'w wneud i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Amcanion Gwella yr Awdurdod yn y blynyddoedd i ddod.

**ATODIAD 1**

**Amserlen Gryno**
**Llunio'r Cynllun Gwella 2013-14**

| Dyddiad | Cam gweithredu |
|---|---|
| Gorffennaf 2012 | Y Panel Gweithredol yn cytuno ar aelodaeth Gweithgor y Cynllun Gwella (CG). |
| Gorff - Medi 2012 | Cyfarfod cyntaf Gweithgor y CG i ddatblygu amcanion ar gyfer 2013-14. |
| Medi 2012 | Y Panel Gweithredol yn ystyried argymhellion Gweithgor y CG mewn perthynas ag amcanion 2013-14. |
| Hydref 2012 | Yr Awdurdod Tân ac Achub llawn yn ystyried argymhellion y Panel Gweithredol, ac yn cymeradwyo'r Amcanion Gwella drafft ar gyfer cynnal ymgynghoriad cyhoeddus.<br><br>Penderfynu ar gyfnod yr ymgynghoriad - 10 wythnos = 24/12/12. 12 wythnos = 7/1/13. |
| Tachwedd 2012 | Y Panel Gweithredol yn ystyried cyllideb ddrafft 2013-14. |
| Rhagfyr 2012 | Yr Awdurdod Tân ac Achub llawn yn ystyried cyllideb ddrafft 2013-14. |
| Chwefror 2013 | Y Panel Gweithredol yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ac yn cwblhau'r CG yn derfynol yng nghyd-destun cyllideb 2013-14, ac ei argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub. |
| Mawrth 2013 | Yr Awdurdod Tân ac Achub llawn yn rhoi cymeradwyaeth derfynol i gyllideb 2013-14, a'r CG i'w gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2013. |